


tud 3	tud 6	tud 10	tud 12
Pobl a Phethe	Ble yn y byd?	Holi Awdur	Chwaraeon

Dau Awdur Lleol



A oes ardal mor denau ei phoblogaeth â'n hardal ni lle y mae cymaint o feirdd a nofelwyr ac awduron a chyhoeddwr yn byw? Mae gennym wasg Y Lolfa sy'n darparu cyflogaeth yn lleol, mae gennym gwmni Atebol yn y Fagwyr sy'n gyhoeddwr llyfrau ac adnoddau addysg, ac mae gennym sawl dylunydd proffesiynol, golygydd a chyfieithydd yn byw yn ein plith. Cafwyd cyfle i ddathlu cyfraniad yr ardal fel un o ganolfannau'r byd cyhoeddi Cymraeg mewn noson arbennig yn y

Llew Du ddiwedd Mawrth pan lanswyd dau lyfr newydd gan Y Lolfa, sef casgliad o gerddi gan Robat Gruffudd, *Gymri Di Gymru?*, a nofel gyntaf Geraint Evans, *Y Llwybr*. Mae nofel ddiectif Geraint yn torri tir newydd gan mai dyma'r llyfr cyntaf yn y Gymraeg y gellir ei lawrlwytho ar ffurf e-lyfr ar ddarllenydd electronig.

Gellwch ddarllen adolygiad ar gyfrol Robat Gruffudd ar dudalen 5 a chyfweliad arbennig â Geraint Evans ar dudalen 10.

Casglu sbwriel

Dyna braf oedd gweld gweithwyr y Cyngor Sir yn glanhau'r sbwriel ar ochr y ffordd sy'n arwain i mewn i Dal-y-bont ddechrau mis Mawrth. Yr oedd yr holl bapur a chardfwrdd a phlastig yn gywilydd i'w weld. Wrth gerdded ar hyd ffordd a llwybrau'r fro, un peth sy'n syfrdanu dyn yn aml yw cymaint o sbwriel a deflir yn gwbl anghyfrifol. Ychydig iawn o barch sydd gan rai pobl tuag at yr amgylchedd a'u cymuned. Gobeithio'n fawr y bydd pawb sy'n dymuno cadw ein pentrefi'n daclus yn casglu sbwriel y gwanwyn hwn fel mai'r unig beth a fydd yn addurno'r perthi a'r llwybrau fydd blodau gwyllt.

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Geraint Evans Garnwen, Tal-y-bont post@garnwen.org Cysyllter â golygyddion y mis. Carys Briddon	(01970) 832473
Tynnu lluniau: Teipyddes:		
Bont-goch: Parsel Henllys: Eglwysfach: Taliessin: Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch Dilys Morgan, Alltgoch Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais Mai Leeding, Glannant, Taliessin Aileen Williams, Maesmeillion Kathleen Richards, Y Bryn Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl Janet Evans, Cefngweiriog Eirlys Jones, 91 Maes y Deri	832566 832498 (01654) 781312 832672 832438 832201 832429 (01654) 781260 832483
Tre'r Ddôl		
Maes y Deri		
Cadeirydd: Is-gaderydd Ysgrifennydd: Trysorydd: Aelodaeth: Hysbysebion: Plygu: Dosbarthwyr:	CYMDEITHAS PAPUR PAWB Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont Geraint Pugh, Dôl Pistyll Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont Gwyn Jenkins, Maesgwyn, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais Gwenllian Parry-Jones, Lyn Hammonds Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones, Eurllys Jones (Tanysgrifiadau)	832448 832433 832384 832560 832438 (01654) 781312

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Golygydd y rhifyn hwn oedd Bleddyn Huws gyda lolo yn dylunio. Golygyddion y rhifyn nesaf fydd Geraint (post@garnwen.org.uk 832473), Geraint a Sian. Dylai'r deunydd fod yn llaw'r golygydd erbyn dydd Gwener **Mai 1af** a bydd y papur ar werth ddydd Gwener **Mai 8fed**.

Parcio am ddim yn Ynyslas i drigolion lleol



Mae'r Cyngor Cefn Gwlad, sy'n rheoli twyni a thraeth

Ynyslas fel rhan o Warchodfa Natur Genedlaethol Dyfi, yn cynnig tocynnau parcio rhad ac am ddim i drigolion lleol. Gan fod gwyliau'r Pasg ar y gorwel, y gobaith yw y bydd y tocyn am ddim yn annog nifer o drigolion lleol i wneud yn fawr o'r arfordir ysblennydd sydd ar garreg eu drws.

Mae'r ardaloedd sy'n gymwys i gael y tocynnau'n cynnwys codau post Dyffryn Dyfi ac Aberystwyth - SY19,



SY20, SY23, SY24 ac LL36.

Os ydych yn byw yn un o'r ardaloedd yma, mae croeso ichi ddod i Ganolfan Ymwelwyr Ynyslas i nôl eich tocyn. Bydd y Ganolfan ar agor o Ddydd Gwener 3 Ebrill tan ddiwedd mis Medi, a'r cyfan sydd raid ichi'i ei wneud yw dod â bil gyda chi'n dangos eich cod post.

Yn ôl Lucy Swannell, Swyddog Rheoli Ymwelwyr y Cyngor Cefn Gwlad: 'Rydym eisiau i drigolion lleol ddefnyddio a mwynhau'r safle, gan ddysgu mwy am y nodweddion naturiol arbennig sydd ar garreg eu drws. Mae trigolion lleol yn hollbwysig o ran ein helpu i reoli'r warchodfa a chynnal y bywyd gwyllt gwyh.'

Yn ystod misoedd yr haf, bydd y Cyngor Cefn Gwlad yn cynnal digwyddiadau i'r holl deulu gan gynnwys arwain teithiau cerdded yn rhad ac am ddim. Dyma ffordd wych o annog pobl i fynd am dro drwy'r warchodfa ac ymddiddori yn ei bywyd gwyllt a'i hanes. Gallwch gael mwy o wybodaeth trwy ffonio Canolfan Ymwelwyr Ynyslas, 01970 872900.

Os am darsi neu fws mini

**CAMBRIAN
CABS**

Teithiau Pell ac Agos
01970 626292

Dyddiadur

Ebrill

10
Bethel, 10.00, Gweinidog
Rehoboth, 10.00, Oedfa
Dydd Gwener y Groglith
12
Bethel, 10.00, 2.00, 5.00 -
Cyrddau'r Pasg, Tom Defis
Nasareth, 10.00, 2.00, 5.00 -
Tom Defis, C.P. Bethel
Rehoboth, 10.00, Oedfa'r
Pasg yn Y Garn
Eglwys Dewi Sant - Gweler
yr hysbysfwrdd
Eglwys St. Pedr, Bont-goch -
Cymun Bendigaid Sul y Pasg,
2.30

14
C.Ff.I. Tal-y-bont
16
Sefydliad y Merched, Tal-y-
bont, 7.15pm, Kate
O'Sullivan MVB, MSc, Cert
SAS, MRCVS

19
Bethel, 5.00, Parch Judith
Morris
Rehoboth, 10.00, Glyn
Morgan
Eglwys Dewi Sant - Gweler
yr hysbysfwrdd
Eglwys St. Pedr, Bont-goch -
Cymun Bendigaid 2.30pm
20
Merched y Wawr Tal-y-bont
a'r Cylch, Coginio gyda
Helen ac Eleri

21
C.Ff.I. Tal-y-bont
22
Theatr Bara Caws,
'Halibalw', Neuadd Goffa
Tal-y-bont, 7.30pm

24
Clwb Nos Wener - Noson
Gomedi
26
Bethel, 2.00, Parch Andrew
Lenny

Rehoboth, 5.00, Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant - Gweler
yr hysbysfwrdd
28
C.Ff.I. Tal-y-bont

Mai

3
Bethel, 10.00, Uno yn
Nasareth
Nasareth, 10.00, R.H. Lewis
Rehoboth, 10.00, Gordon
MacDonald
Eglwys Dewi Sant - Gweler
yr hysbysfwrdd
Eglwys St. Pedr, Bont-goch,
2.30, Hwylol Weddi

4
Merched y Wawr, Tal-y-bont
a'r Cylch, Taith gerdded yng
ngofal John a Mai Leeding
Pwyllgor Sioe Tal-y-bont,
8.00pm

5
C.Ff.I. Tal-y-bont
10
Bethel, 10.00 a 5.00,
Cymanfa Ganu
Nasareth, 10.00 a 5.00,
Cymanfa Ganu
Rehoboth, 10.00 a 5.00,
Cymanfa Ganu
Eglwys Dewi Sant - Gweler
yr hysbysfwrdd

10-16
Wythnos Cymorth
Cristnogol
13
Pwyllgor y Neuadd, 8.00pm
12
C.Ff.I. Tal-y-bont
16
Clwb Nos Wener - Taith
Gerdded

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Aileen Williams, Maesmeillion, Tal y bont (01970 832438) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Awduron o Dal-y-bont yn y Fedwen Lyfrau

Ydy, mae'r Fedwen, sef gāyl lyfrau Gymraeg fywiocaf Cymru, yn dod i Aberystwyth eleni, pan gynhelir digwyddiadau yn y Llyfrgell Genedlaethol ar nos Wener, 1 Mai, ac yng Nghanolfan Arad Goch gydol dydd Sadwrn, 2 Mai. Am 10.15 ar fore dydd Sadwrn yr āyl bydd Robot Gruffudd yn trafod 'A Gymri Di Gymru?' fel rhan o sesiwn 'Barddoniaeth a Baneri' gyda Dafydd Morgan Lewis a Hywel Griffiths, ac yna am 11.00 bydd Geraint Evans yn cymryd rhan mewn trafodaeth ar lenyddiaeth Aberystwyth, 'Aber: Lle'n ein llên'. Bydd rhestr gyflawn o'r digwyddiadau ar wefan www.yllofa.com cyn hir. Mae gweithgareddau'r āyl i gyd am ddim ac mae croeso cynnes i bawb.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Polly Stills a Dafydd Jones, Tŷ Mawr, Eglwys-fach sydd wedi cael merch, Lisa Glas ar 17 o Fawrth.

Dathlu'r deunaw

Dau a fu'n dathlu eu pen-blwydd yn ddeunaw oed ar yr un diwrnod ym mis Ebrill oedd Helygen Crowther, Tŷ Coets, a Steffan Nutting, Tŷ Hen Henllys. Pob dymuniad da i'r ddau ohonynt.

Dathliadau pen-blwydd

Llongyfarchiadau i Beti Wyn Davies a John Leeding sydd wedi dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Llongyfarchiadau hefyd i Joy Neal, Llwyncelyn, Glandyfi ar ôl dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Taith

Mae William Bamford, mab Vick a Roy Bamford, Felin y Cwm, Ffwrnias ar ei ffordd i Seland Newydd gan ddefnyddio cerbydau cyhoeddus yn unig am nad yw am hedfan yno. Mae wedi bod yn byw ym Moscow, Azerbaijan, Mongolia a Beijing. Fe arhosodd am ychydig amser yn Japan yng nghwmni Tom Cairnes (gynt o Daliesin) sydd yn byw yno. Ar hyn o bryd mae William yn Awstralia. Bydd ganddo straeon diddorol i'w hadrodd pan fydd yn dychwelyd ymhen blwyddyn.

Codwn ein baneri!

Bydd ein darllenwyr yn falch o glywed fod enwau'r sawl a ladrataodd faner y Ddraig Goch oddi ar y polyn y tu allan i'r Neuadd Goffa ddechrau Mawrth bellach wedi cael eu cyflwyno i'r heddlu. Yn ôl a ddeallwn, yr oedd hynny o dystiolaeth a oedd ei hangen ar yr heddlu ar gael ar wefan *Facebook*. Trwy gymwynas sydyn a pharod dau o aelodau diwyd Pwyllgor y Neuadd, llwyddwyd i osod baner Draig Goch arall yn lle'r un a gipiwyd ymaith fel nad oedd fawr neb wedi sylwi fod y faner wreiddiol wedi diflannu. Da iawn nhw.

Pobl a Phethe



Ar ddydd Sul 15 Mawrth, yn Eglwys Babyddol y Santes Gwenfrewi, Aberystwyth, bedyddiwyd Caoimhe Melangell, chwaer fach Oisín Lludd, ac ail blentyn Siôn Pennant a Helena, Pen-y-gro, Bont-goch. Mewn gwasanaeth hyfryd gweinyddwyd y bedydd gan y Tad Paul. Yn ddiweddarach, mwynhaodd y gwahoddedigion bryd hyfryd o fwyd yn Neuadd Goffa, Tal-y-bont a baratowyd gan y teulu.

Llwynogod yn bla

A'r tymor wyna bellach yn ei anterth yn ucheldir gogledd Ceredigion, clywsom fod nifer o ffermwyr lleol yn cwyno eleni oherwydd fod llwynogod yn lladd yr ayn. Bu'n rhaid cynnal sawl helfa ar frys yng nghyffiniau Lletylwydyn er mwyn ceisio dal y llwynogod rhag creu rhagor o lanast a cholled.

Brysiwch wella

Dymunwn wellhad buan i Idris Jones, Llysynyr, sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty, ac i Margaret Myrtle Williams, Maeswyn, sydd wedi cael damwain ddrwg a thorri ei choes.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â theulu a ffrindiau y ddiweddar Mrs Doris Pierce, 78 Maesyderi, sef Eleri a'i gâr Charles, a Robert a'i wraig Llinos a'r plant, William, Gareth ac Elin, a'i chwiorydd Beatrice Lewis a Louisa Phillips. Bydd teyrnged yn y rhifyn nesaf.

Colli mam-gu

Estynnir cydymdeimlad â Christine a John Evans, Bryn Eleri a'r teulu, ar farwolaeth mam-gu Christine yn Ffrainc.

Cyfarfod y Chwiorydd Rehoboth

Daeth ein tymor i ben ar Fawrth y 10fed pan gafwyd y pleser o gwmni lolo ap Eurfyl a Buddug o Lwyngwriil. Mae'r ddau yn mwynhau teithio dramor a chawsom hanes eu taith i Batagonia, Chile a Rio. Rhoddodd Eurfyl fraslun o hanes y llefydd y bu'n ymweld â hwy ym Mhatagonia a disgrifiad manwl o daith yr ymfudwyr cyntaf o Gymru.

Cytunodd Eirlys a Non i barhau gyda'u swyddi am dymor arall.

Mwynhawyd lluniaeth ysgafn wedi ei pharatoi gan Margaret Jones a Carys Briddon. Diolchwyd i bawb a fu yng ngofal y te yn ystod y tymor.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Mr John Davies, Dolcletwr sydd mewn ysbyty yn y Gogledd, gan ei fod yn aros ar y pryd gyda'i ferch Kit yn y Ffôr, Pwllheli. Hefyd i Mrs Avril Bond a gafodd ddamwain fach yn ei chartref.

Chwarae rhan mewn opera

Llongyfarchiadau i Jenny Fothergill, Tal-y-bont, ar gael ei dewis yn un o brif gymeriadau opera ddychanol fywiog Offenbach, '*Orpheus in the Underworld*'. Mae Jenny wedi bod yn perfformio'n gyson gyda'r '*Aberystwyth Showtime Singers*' ers deunaw mlynedd ac mae hefyd yn aelod o Gymdeithas Gorawl y Brifysgol a Chymdeithas Gorawl Aberystwyth.

Eglwys St. Pedr, Elerch

Cynhaliwyd Ffestri'r Pasg ar Sul y Blodau, 5 Ebrill. Cytunodd Emyr Davies, Llety Ifan Hen i weithredu am dymor arall fel Warden y Ficer, ac ailletholwyd Dewi Evans, Pen-y-graig, fel Warden y Bobl ac ystlyswr. Yn ogystal, ailletholwyd Richard Huws, Pantgwyn yn ysgrifennydd y Cyngor Plwyfol Eglwysig, gydag Emyr Davies yn Drysorydd. Diolchodd y Ficer i bawb am eu cydweithrediad caredig yn ystod blwyddyn a fu'n un adeiladol iawn i'r Eglwys. Edrychir ymlaen at wasanaeth Sul y Pasg, ac mae'r gwaith o gynllunio'r noson flynyddol o gaws, gwin a chàn a gynhelir eleni ar nos Wener, 26 Mehefin wedi cychwyn.

Y Fframdy
Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf.
Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau.
Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.
Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

C.Ff.I. Tal-y-bont



Swyddogion newydd y Sir, yn cynnwys Eleri James (Morwyn y Sir), Hedydd Davies (wyres Gwilym ac Ann Jenkins, Llety'r Bugail), a'r Frenhines Manon Richards o Glwb Llanwenog.


Dechreuodd y mis yma mewn modd annaturiol iawn...gyda chyfarfod! Ond, 'roedd rhaid cael ein pennau at ein gilydd i gael gwneud paratodau tuag at Ddiwrnod Maes y Sir. Penderfynwyd ar y cystadlaethau y byddwn yn cynnig arnynt, pwy fyddai'n cystadlu a phwy fyddai'n ein cynorthwyo. Fel mae'r mis wedi mynd heibio, cawsom gyfle i fynd draw i Gerrigartanau i gael hyfforddiant da godro gyda Martin, i Gaergywydd, Bow Street am hyfforddiant ayn tew gydag Alun ac i Dy'n Graig am hyfforddiant barnu moch. Diolch yn fawr i deuluoedd Jenkins, Jones a Jenkins am eu hamser a'u croeso.

Nos Wener y 13eg, targedwyd cyn-aelodau'r Mudiad drwy drefnu Noson Rhowch Gynnig Arni i lawr yng Ngwesty Llanina, Llanarth. Llwyddwyd i gael tîm at ei gilydd er gwaetha'r 'maternities' wyna. Cafwyd lot o sbort a bwriedir cynnal noson debyg yn y dyfodol i gyn-aelodau eto.

Tro Elgan a Morfudd, Tynant i ddweud eu hanesion am Seland Newydd oedd nos Fawrth, 17eg o'r mis. Anghredadwy oedd gweld cae oedd yn gant o aceri! Ond yn hela ni werthfawrogi'n fawr fod y ddau wedi dod nôl adre.

Serch mai dim ond criw bychan ohonom ddaeth at ein gilydd ar y 24ain, trosglwyddwyd neges bwysig gan Ywain ap Dylan, sef Swyddog Prosiect Diogelwch y Ffyrdd Sir Ceredigion, am beryglon cyflymder a chyflwr ffyrdd. Er bod y pwnc yn un difrifol, mwynhawyd y noson yn fawr gan yr aelodau.

Dydw i ddim ond ar baragraff pedwar, ac yn sydyn iawn, mae'n amser Diwrnod Maes y Sir! Cynhaliwyd y cystadlaethau i lawr ym mart Tregaron ar y 4^{ydd} o Ebrill. Cystadlodd sawl aelod o Glwb Tal-y-bont yn y barnu stoc, ffensio, hyrwyddo clwb, sialens natur, sialens diogelwch a'r her ATV. Llwyddodd Elgan, Rhydian a Geraint i gipio'r wobwr am y ffens orau a daeth tîm barnu stoc hñn yn 3^{ydd}. Daeth



Tri ffensiwr o fri, Rhydian, Geraint ac Elgan.

clod hefyd i Dewi Jenkins, Ty'n Graig a ddaeth yn 4ydd yn barnu stoc iau.

Bydd y tîm ffensio a Dewi'n mynd trwyddo i gynrychioli Ceredigion yn niwrnod maes Cymru a gynhelir yn Ynys Môn ar y 25^{ain} o Ebrill. Dymunwn bob lwc iddyn nhw.

Rhaid nodi hefyd bod rhai o'r merched hñn wrthi'n paratoi drwy ymarfer tynnu'r gelyn. Bydd rhai o'r aelodau mewn tîm o glybiau mwngrel, hynny yw aelodau o sawl clwb!

Gala Nofio, Chwaraeon y Sir a'r Rali yw'r cystadlaethau sy'n dod lan yn fuan, felly bydd lot o waith yn mynd mewn i baratoi ar gyfer y rheini. Ond dwi'n siâr y byddwn yn medru ffitio lot o weithgareddau ychwanegol i mewn rhyngddyn nhw i gyd. Fel dwi wastad yn dweud, tarwch heibio ar nosweithiau Mawrth os y'ch chi awydd cymryd rhan neu gyfrannu tuag at ein gweithgareddau.

Eleri James

Y Bras Melyn



Cafodd yr aderyn Bras Melyn (*Yellowhammer*) gryn sylw ar raglen byd natur Radio Cymru, '*Galwad Cynnar*', yn ddiweddar. Mynegodd gâr o Lanfairfechan ei bryder nad oedd yn dod ar draws yr aderyn hardd hwn hanner mor aml ag yr arferai wneud, ac apeliodd am wybodaeth gan wrandawyr eraill er

mwyn gweld a oedd hyn yn ddarlun cyffredinol mewn ardaloedd eraill o Gymru. Cadarnhaodd Iolo Williams ac arbenigwyr eraill fod newid mewn dulliau amaethu wedi achosi cwmp sylweddol yn niferoedd y rhywogaeth, a daethpwyd i'r casgliad nad yw'r bras melyn bellach ymhlith ein hadar mwyaf cyffredin. Un a ymatebodd i alwad y rhaglen am wybodaeth leol oedd Richard Huws o Bont-goch, a gadarnhaodd mewn e-bost a ddarllenwyd ar y rhaglen ei fod yntau yn bryderus fod y niferoedd wedi gostwng yn sylweddol, tra oedd yn cyfaddef ei fod yn ffodus medru dweud ei fod yn gweld yr aderyn (pâr ohonynt), bron yn foreol, wrth fynd â'i gi am dro ar hyd y ffordd o'r pentref ar hyd Cwm Eleri i gyfeiriad Tal-y-bont. Byddai'n ddiddorol clywed gan ddarllenwyr eraill *Papur Pawb*, yn enwedig o blith y rhai sy'n bwydo adar â hadau blodyn yr haul, pa mor aml mae'r bras melyn yn ymweld â'u gerddi.

Merched y Wawr Tal-y-bont



Aelodau o Bwyllgor Merched y Wawr Tal-y-bont yn dathlu Gāyl Ddewi yng nghwmni Emyr Puw Evans a'r teulu yng Nghlwb Golff y Borth.

A GYMRI DI GYMRU? - Adolygiad

Pleser oedd pori trwy gyfrol newydd o farddoniaeth Robot Gruffudd. Na, nid nofel sylwer, ond cyfrol o gerddi. Wrth gyflwyno'r llyfr i Enid mae Robot yn nodi bod Enid 'wastad wedi dweud bod fy ngherddi yn well na fy nofelau'. Well i mi beidio ag ymuno â'r ddadl honno, ond wrth ddarllen y cerddi does dim amheuaeth nad yw Robot yn cael andros o hwyl ar gyfansoddi.

O ddyfynnu'r broliant, yr hyn a geir yn *A Gymri Di Gymru* yw 'dros drigain o gerddi syml, swynol, dwys a doniol am Gymru ac am fyw'.

Fel pathologydd yn pwysu dros gorff y genedl mae Robot yn llwyddo i ddadansoddi cyflwr Cymru i'r dim. Weithiau bydd ei gyllell braidd yn agos at yr asgwrn gan wneud i chi wingo, a thro arall bydd gordd yn disodli'r scalpel yn ei law. Trwy'r cyfan, fodd bynnag, dyma ddarlun didwyll o'n gwlad ac am fywyd, y medrwyd chi uniaethu ag ef, ac ar eich gwaethaf byddwch yn cytuno gyda thrwch yr hyn a fynegir yn y cerddi.

Dyma enghraifft o'r gyllell finio, sy'n adlais o sylw dirdynnol yr athronydd J.R. Jones a deimlai'n alltud yn ei wlad ei hunan:

Beth y'ch chi'n neud
Yn niwedd eich byd
A'ch muriau 'di syrthio,
A phawb yn fud?
Oes 'na linell argyfwng
Neu wydr i'w falu
Pan mae'ch gwlad wedi'ch gadael
A'ch byd wedi chwalu?

Mae'n siâr taw'r rhai fydd yn gwingo fwyaf wrth ddarllen y cerddi fydd cefnogwyr digwestiwn Plaid Cymru. Yr hyn mae Robot yn ei brofi, wrth gwrs, yw fod i feirniadaeth ddychanol a choegni le pwysig mewn trafodaeth wleidyddol. Darllenwch y gân i Dafydd Êl a byddwch yn siwr o chwerthin yn uchel.

Cawn ein hatgoffa hefyd o gerdd Robot a roddodd i ni un o'n hoff sloganau:

melys yw bod yn Gymro
a chael peintio'r byd yn wyrdd.

O safbwynt lleol gwelir ambell gyffyrddiad a fydd yn taro nodyn gyda darllenwyr *Papur Pawb*:

Dei Ritsh a Chefnegweiriog
Huw Bryngwyn a John Bala
Gwesyn a'r ddau goedwigwr;
Ble aethoch chi mor smala?

Y cerddi a wnaeth fy nghyffwrdd i fwyaf, fodd bynnag, oedd y rhai personol, gan gynnwys y rhai i'w gyfaiill Eirug Wyn a honer er cof am ei fam:

ti, a'th wareiddiad ceinach
ti, a'th ymennydd chwim
ti, a gwestiynai bopeth
ti, na phoenai am ddim
ti, a ddyfynnai Goethe
ac eraill, dyn a ãyr,
ti, a'th gred yn y teulu
ti, a'm deallai yn llwyr.


Rhyfedd hefyd oedd y pwl o hiraeth wnaeth fy nharo wrth ddarllen y gerdd *Tsheco* (nos Wener, Talybont):

tsheco bod 'na lwybr rownd y Bloc
tsheco bod 'na lyfrau yn ein stoc
tsheco'n gyffredinol, er ein pechu,
nad yw'r Saeson eto wedi'n trechu.

a dyma nhw, yr hen dafarnau,
i groesawu ein rhagfarnau
tsheco bod cadeiriau rownd y bwrdd
tsheco bod y bois yn dal i gwrdd.

Yn y noson lansio a drefnwyd yn y Llew Du (ar y cyd â nofel Geraint Evans, *Y Llwybr*) clywyd Robot yn cyfeirio at y beirdd a fu'n cosi'r awen yn Nhal-y-bont ers talwm. Mae'n siâr fod gwên ar wynebau'r cwmwl tystion hyn wrth wrando ar Robot yn cyflwyno'i gerddi yn y lansiad, a braf yw cydnabod fod y traddodiad barddol yn parhau yn yr ardal.

D.Ph.D.



S. F. BYRNE
Adeiladwr a Saer Maen

Ffôn: 01970 832068
M: 077626 20309
Gwneir pob math o waith

K Hughes

Plymio a Gwresogi
Gosod a Thellio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

M & D PLUMBERS
Plumbing & Heating

Prisau Cymharol,
Gostyngiad i Bensiynwyr,
Yswiriant lawr;

iphe Cysylltwch â Ni yn gyntaf ar
01974 282624 / 07773978352

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

CANOLFAN
M.O.T.

HUW LEWIS

M.O.T.
CENTRE

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth

TEIARS

HUW LEWIS

TYRES

Glanyrafon

Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni
drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor

Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK

HUWLEWISTYRES.COM



Ffôn 01970 636774

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Estynnwyd croeso i'r aelodau i gyfarfod mis Mawrth gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Nest Jenkins. Gyda'r Cynghorydd Glenys Edwards yn cynnig a'r Cynghorydd Gerwyn Jones yn eillio, cadarnhawyd cofnodion cyfarfod Chwefror fel rhai cywir. Adroddodd y Clerc iddo llythyru gyda swyddog perthnasol yn y Cyngor Sir ar y camau y cytunwyd arnynt i geisio lleihau problemau baw cān o fewn y gymdogaeth, ond nad oedd wedi derbyn ateb mor belled. Cytunwyd nad yw'r arwyddion presennol yn gwahardd cān ger y ddwy fynedfa i'r Cae Bach yn ddigon clir, a bod angen rhai mwy o faint. Mae llawer iawn o'r trigolion wedi arfer defnyddio'r Cae Bach fel llwybr troed, a byddai'n anodd iawn felly cau'r fynedfa i ffordd yr Hen Ysgol yn gyfan gwbl. Cytunwyd i holi am gostau codi gatiâu pwrpasol ger y ddwy fynedfa i'r Cae Bach i atal cān rhag crwydro yno.

Cafwyd adroddiad llafar gan y Cadeirydd o'r digwyddiad a fynychodd lle cyflwynwyd y cysyniad o Bwerdy i hyrwyddo Cymreictod o fewn cymunedau lleol. Amlinellwyd yr hyn a gyflawnwyd gan Bwerdai a sefydlwyd mewn ardaloedd eraill yng Ngheredigion. Cytunwyd nad oedd galw ar hyn o bryd i sefydlu Pwerdy o'r fath o fewn y gymuned gan fod amrywiaeth dda o weithgareddau eisoes yn bodoli, ond bydd yr wybodaeth am brofiadau ardaloedd eraill yn rhywbeth i'w gadw mewn cof petai'r amgylchiadau'n newid.

Cafwyd adroddiad o'r cyfarfod adeiladol a drefnwyd gyda swyddog o'r Adran Stadau ar broblemau parcio ym Maes-y-deri. Ymhlith y materion a drafodwyd roedd sicrhau rhagor o dir addas i barcio ceir o fewn y stad, gofalu nad oes modd gyrru i mewn iddi drwy'r fynedfa gyferbyn â'r Cae Bach, a llenwi hen dwll carthffosiaeth y tu ôl i'r tai ar yr ochr ogledd-orllewinol. Mae'r Cyngor Sir am baratoi amcangyfrifon o'r gost o uwchraddio'r cyfleusterau parcio, a bydd y gwaith o llenwi'r twll yn mynd rhagddo dros yr wythnosau nesaf. Croesawyd y datblygiadau hyn gan yr aelodau.

Darllewyd llythyr oddi wrth drigolion Penrhiw yn cwyno am gyflwr y llain galed gyferbyn â Salon Leri. Eglurwyd bod ei gyflwr mor wael fel y gorfodir plant ysgol a'r henoed i gerdded ar ochr ddwyreiniol y ffordd fawr o Lys Etna nes cyrraedd y Bont Fawr. Awgryma'r llythyr y dylid mynd ati i dacluso'r

llain, codi palmant ar yr ochr fewnol a gosod rhwystrau mwy cadarn na'r rhai plastig presennol i atal modurwyr rhag parcio yno. Cytunodd y Cyngor i anfon at yr Asiantaeth Priffyrdd yn tynnu sylw at y perygl. Hefyd derbyniwyd llythyr oddi wrth un o drigolion y pentref yn tynnu sylw'r Cyngor at gyflwr peryglus rhannau o'r llwybr rhwng yr Hen Felin a Maes-y-llan. Cytunwyd i anfon at Uned Llwybrau'r Cyngor Sir yn tynnu sylw at y mater ac yn gofyn iddynt drefnu i'w wella fel mater o frys.

Derbyniwyd gwahoddiad gan Gwmni Airtricity yn gofyn i'r Cyngor awgrymu pa weithgareddau y dymunai roi blaenoriaeth iddynt pan ddosrennir yr arian budd cymunedol os cymeradwyir y cais cynllunio i godi Fferm Wynt Nant-y-moch. Bydd y Cynghorwyr yn penderfynu ar eu dewis o flaenoriaethau yng nghyfarfod mis Ebrill.

Adroddodd y Clerc iddo gwrdd gyda swyddog o Adran Parciau a Gerddi'r Cyngor Sir, parthed cyflwr y lloriau o dan y siglenni yn y Cae Bach. Gall y Cyngor Sir wneud gwaith trwsio dros-dro, ond pwysleisiodd y swyddog mai ateb tymor byr fyddai hyn. Pan ddaw'r amser i osod lloriau newydd, ei gyngor yw y dylid codi siglenni newydd ar yr un pryd. Cytunwyd i drefnu i'r Cyngor Sir osod teils ail-law yn lle y rhai gwaethaf, a llenwi'r bylchau rhyngddynt. Cytunwyd hefyd y dylid dechrau gwneud ymholiadau am Grant Cymunedol er mwyn rhoi cychwyn ar welliannau tymor hir.

Tynnwyd sylw'r Cynghorwyr at y gwaith cymhennu a wnaed gan weithwyr y Cyngor Sir o amgylch y toiledau cyhoeddus fel rhan o'r prosiect 'Trefi Taclus'. Bellach plannwyd blodau a llwyni yno, a gosodwyd llwyfan i'w gwneud yn haws i ddarlennu y bwrdd gwybodaeth ar Ysbryd y Mwynwyr. Croesawyd y gwelliannau gan aelodau'r Cyngor.

Cafodd baner y Ddraig Goch sydd i'w gweld fel arfer o flaen y Neuadd Goffa ei chyfnwid gan rai di-enw am faner San Siôr yn gynnar fore Gwener 27 Chwefror. Trefnodd rhai o swyddogion glew y Neuadd i godi baner Draig Goch wrth-gefn yn ei lle, fodd bynnag, a hynny mewn da bryd ar gyfer Eisteddfod yr Ysgol a gynhaliwyd yn y Neuadd y bore hwnnw. Adroddwyd bod y drosedd o ddwyn y faner bellach yn nwylo'r heddlu.

Enillydd 'Ble yn y Byd?' Mis Mawrth
Ianto Hammond Pennant, Bont-goch

Ble yn y byd?

Sut i chwarae

Ble yn nalgylch Papur Pawb mae'r llun yma wedi cael ei dynnu?

Ateb

Enw

Cyfeiriad

Cod Post

Rhif Ffôn

Atebion: i Geraint Evans, Garnwen, Tal-y-bont erbyn Mai 1af

Gwobr: Tocyn Llyfr £10

i'r ateb cywir cyntaf allan o'r het



Cymdeithas Sioe Tal-y-bont

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Sioe nos Lun, 2 Mawrth, yn y Neuadd Goffa. Adroddodd y Cadeirydd, Evan Jenkins, mai siom fawr oedd gorfod canslo'r sioe y llynedd oherwydd tywydd gwlyb, ond edrychir ymlaen at gynnal y sioe eleni, gan obeithio'n fawr y bydd y tywydd yn garedicach. Diolchodd i'r Llywyddion, y Swyddogion ac i bawb arall am eu cefnogaeth drwy'r flwyddyn.

Llywyddion y sioe eleni yw Dr a Mrs Gareth Hughes, Coetmor, Tal-y-bont.

Etholwyd y swyddogion canlynol am 2009:

Cadeirydd: Evan Jenkins, Carregcadwgan; Is-gadeirydd: Dewi Evans, 93 Bryncastell, Bow Street; Trysorydd: Howard Ovens, Frondirion; Ysgrifenyddes Gyffredinol: Janet Jones, Llwynglas; Ysgrifenyddes y Babell: Dilys Morgan, Alltgoch; Cyfarwyddwyr y Sioe: Teulu Bryngwynmawr; Rheolwr y Maes: Emyr Davies, Llety Ifan Hen.

Bydd y sioe eleni yn cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn, 29 Awst, ar gaeau'r Llew Du, trwy ganiatâd caredig Teulu Richards, Glanleri.

Mae croeso i unrhyw un ymuno â ni yn ein pwyllgorau, sy'n cael eu cynnal ar y nos Lun gyntaf o bob mis yn y Neuadd Goffa am 8.00 o'r gloch.

Janet Jones

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu


Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Byroad, The Talisman, MACHYNALLETH
Ffôn: 01970 832 304
Ffôn/Ffacs: +44 (0)1970 832230 | afiaith@aol.com

ANGEN
Anifeiliaid Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy lleol)

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 880627

Argraffu 5-lliw
a gwasanaeth di-ail:
holwch Paul am bris
ar paul@yloffa.com



yloffa

TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE
01970 832 304
yloffa@yloffa.com
www.yloffa.com

Y Cynhaeaf Coed



Fe gysylltodd Erwyd Howells â golygydd y mis i roi gwybod am olygfa drawiadol o'r domen anferthol o goed a dorrwyd gan y Comisiwn Coedwigaeth ger hen safle Capel Tabor yn Nant y Moch. Ar fore braf o wanwyn ddechrau Ebrill, a'r haul cynnar yn disgleirio, roedd gweld y tunelli o goed wedi eu gosod yn bentryrau uwchlaw'r ffordd yn olygfa gofiadwy iawn. Mae Gwilym Jenkins, Llety'r Bugail, yn cofio'r coed yn cael eu planu yn ystod y chwedegau, ac am y sôn a oedd yr adeg honno y byddai eu planu yn creu llawer o swyddi yn yr ardal. Erbyn heddiw mae un dyn sy'n gweithio peiriant ar ei ben ei hun yn gallu torri erwau lawer o goed mewn dim o dro, eu torri i hyd arbennig, cyn eu gosod yn bentryrau yn barod i'w cludo oddi yno ar gefn lori. Gwaith i ychydig iawn o ddynion yw symud cymaint o goed erbyn hyn. Ble mae'r holl swyddi lleol a addawyd ddeugain mlynedd yn ôl pan oedd y Comisiwn yn meddiannu'r lluestydd ac yn planu'r coed ar y fath raddfa, tybed?

Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwallt gan Richard

10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Rhian

trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeirgar, dibynadwy
ffôn 837 617
07835 525 553

camau bach

8.00am – 6.00pm Llun - Gwener


**Camau Bach yw'r unig feithrinfa ddydd cyfrwng
Cymraeg yn Aberystwyth.**

Rydym yn cynnig gofal ac addysg o ansawdd i blant o chwe wythnos oed hyd at oed ysgol. Mae clwb gwyliau bywiog yn cael ei gynnal i blant cynradd yn ystod gwyliau'r ysgol hefyd.

Caiff pob plentyn gyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau fydd yn hybu pob agwedd o'i ddatblygiad.

Mae gan y feithrinfa amrywiaeth eang o deganau, deunyddiau crefft ac arlunio, ynghyd â llawer o offer sy'n annog chwarae dychmygus.

Gallwch fod yn dawel eich meddwl y bydd eich plentyn yn cael y gofal gorau gan y tîm o staff profiadol a chymwys, a hynny mewn awyrgylch deniadol, cyfeillgar a Chymreig.

 www.mym.co.uk  01970 639655

Mae'r ysgol wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar efo llawer o weithgareddau i ategu ac atgyfnerthu addysg dda y plant.

Cerddorfa Linyndol

Fe aeth disgyblion CA2 i weld y gerddorfa linyndol yn chwarae yng Nghanolfan y Celfyddydau. Cafwyd amser da yn gweld pobl ifanc y Sir yn chwarae mor dda. Tra oeddem yno, roedd disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cael gwersi Celf yng nghwmni Ruth Jên, athrawes gelf brofiadol iawn.

Mwynhaodd y plant bach y gweithdy yn fawr iawn.

Diwrnod Cymreig



Cynhaliwyd diwrnod Cymreig ar ddechrau mis Mawrth i ddathlu Gŵyl Ddewi. Cafwyd prynhawn o ddawnsio dan arweinyddiaeth Erwyd Howells, coginio pice mân gyda Mrs Nelmes a chelf gyda Mrs Daniell. Dysgodd y plant lawer am draddodiadau Cymreig yn ystod y diwrnod hwylus hwn.

Bonansa Banana



Cymerodd yr ysgol ran mewn ymgyrch Masnach Deg. Roedd pobl ar draws y wlad yn dathlu Bonansa Banana trwy geisio bwyta y nifer mwyaf o fananas Masnach Deg mewn 24awr. Er mwyn dathlu, bwytaodd pawb yn yr ysgol fanana a daethant i'r ysgol wedi gwisgo mewn melyn.

Ymweliad PC Lloyd

Daeth PC Gwyndaf Lloyd i'r ysgol i drafod diogelwch y we a bwllian gyda phlant yr ysgol. Ymatebodd y plant yn dda iawn i'r gweithdy pwysig

Newyddion Ysgol Llangynfelyn

yma yn ymwneud â'u diogelwch personol.

Plant yn y Cwrt!

Bu plant blynyddoedd 5 a 6 yn ymweld â llys Aberystwyth yn ddiweddar. Buont yno yn dysgu am sut mae'r llys yn gweithio a buont yn rhan o dreial ffug. Cawsant eu cau mewn celloedd a gwelwyd tu mewn i fan *Securicor*. Trip arbennig o dda.

Pêl Rwyd a Rygbi yn Nhal-y-bont

Bu disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn ysgol Tal-y-bont yn dysgu sgiliau rygbi a phêl rwyd. Cafwyd amser da iawn yn cymysgu efo'r plant a gwneud ffrindiau newydd trwy ddysgu sgiliau newydd.

Noson gwis

Cafwyd noson gwis lwyddiannus iawn yn nhafarn y *Wildfowler* yn ddiweddar. Ymgasglodd nifer o ffrindiau a rhieni'r ysgol ynghyd â'r staff i gael noson dda o gasglu arian i'r ysgol. Diolch i'r *Wildfowler* am ein gadael i gymryd drosodd am noson.

Bygiau Baco



Aeth yr holl ysgol i Fwlch Nant yr Arian yn ddiweddar i ddysgu am ddiogelwch tân ac am beryglon ysmegu. Mi oedd y gweithdai ar gyfer disgyblion 4, 5 a 6. Tra oeddent yno mi oedd y Cyfnod Sylfaen hyd blwyddyn 3 yn cael gwersi gwyddoniaeth trwy edrych ar gynefinoedd gwahanol.

Earth Hour

Ar ddydd Gwener 27 Mawrth fe aeth yr ysgol trwy'r dydd heb ddefnyddio trydan! Gwnaethom hyn er mwyn torri i lawr ar ein allyriant carbon. Mi oedd hyn yn cyd-fynd ag ymgyrch dros y byd gan y WWF i ni gael meddwl faint o drydan rydym yn ei ddefnyddio o ddydd i ddydd.

Rygbi'r Urdd



Fe gymerodd tîm rygbi'r ysgol ran yn nhwrnament rygbi'r Urdd yng nghlwb rygbi Aberaeron yn ddiweddar. Cafwyd diwrnod da iawn. Er i'r tîm golli yn erbyn Ysgol Aberteifi, Yr Ysgol Gymraeg a Charreg Hirfaen, enillon nhw yn erbyn Ysgol Comins Coch. Da iawn fechgyn am chwarae mor dda.

Cyfeiriannu

Mae disgyblion blynyddoedd 5 a 6 wedi bod yn dysgu sgiliau mapio a chyfeiriannu yn ddiweddar. Mae Mrs Jenny Dingle wedi bod yn dod i'r ysgol i ddysgu'r plant a diolch iddi am ei hamser a'i hymroddiad i fywyd yr ysgol. Yn dilyn sesiynau mapio yn yr ysgol mae'r plant yn rhoi eu sgiliau i'r eithaf trwy fynd allan i'r cefn gwlad o gwmpas y pentref i ddilyn llwybr cerdded arbennig. Mae datblygu'r sgil

yma yn hollbwysig ac o fudd i'r holl blant sy'n cymryd rhan.

Llwyddiant yr Urdd



Mae'r ysgol wedi adeiladu ar ein llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd y llynedd trwy gael 2 gystadleuaeth trwodd i'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd eleni. Fe fydd y grŵp dawnsio creadigol yn dawnsio ar y dydd Llun ac fe fydd Arran Clarke (Blwyddyn



6) yn cynrychioli'r ysgol yn yr Unawd Pres i flwyddyn 6 ac iau ar y dydd Mawrth. Dymunwn bob llwyddiant iddynt yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Mai.

beaufortresearch

Wedi Ystyried Gweithio ym Maes Ymchwil y Farchnad?

Mae Beaufort Research, cwmni blaenllaw ymchwil cymdeithasol yng Nghymru, yn chwilio am siaradwyr Cymraeg i hyfforddi fel cyfwelwyr.

Nid oes angen profiad ond mae mwynhau cwrdd â phobl, defnydd o gar a sgiliau cyfathrebu da yn allweddol.

Dim gwerthu o gwbl. Oriau hyblyg.

**Cysylltwch â Isobel Cooper
ar 01874 636416 am fwy o wybodaeth**

Newyddion Ysgol Tal-y-Bont

Gweithdy Barddoniaeth
Aethom ni i gael gweithdy barddoniaeth gyda Ifor Ap Glyn yng Nghanolfan y Morlan. Roedd yn rhan o arddangosfa oedd yn teithio o gwmpas y byd yn sôn am hawliau pobl.

Erychom ni ar lythyron, barddoniaeth a lluniau plant o wledydd fel Mali, Brasil, Bolivia a Chymru ac roedd yn rhaid i ni ysgrifennu credd am y wybodaeth oedd arnyn nhw. Enw'r arddangosfa oedd 'Same difference'.

Buodd bechgyn Blwyddyn 5 yn cael hwyl gyda Dewi Pws yn Llyfrgell y Dref hefyd yn ystod y mis.

Gan Mari

Trip i Bentre Bach

Aeth y plant lleiaf i gyd ar wibdaith i Bentre Bach ar ddechrau mis Mawrth i ddathlu Diwrnod y Llyfr. Roedd hi'n achlysur arbennig gan ein bod wedi gwisgo fel cymeriadau o nofelau T. Llew Jones er mwyn dathlu ei fywyd a'i waith. Cawsom gwrdd â nifer o gymeriadau diddorol o Twm Siôn Cati i Barti Ddu.

Dysgu am Batagonia



Yn ddiweddar fe ddaeth Mr John o Ysgol Llangynfelyn i'r ysgol i siarad â ni am y Cymry a wnaeth ymfudo i Batagonia. Roedd gan Mr John ddiod o'r enw *matte* i



ni ac roedd rhai pobl wedi bod yn ddigon dewr i'w yfed! Hefyd roedd ganddo ddau *poncho* gafodd yn anrheg o Batagonia. Dysgom lawer o

bethau am fywyd ym Mhatagonia ac fe fwynheiom yr ymweliad yn fawr iawn. Diolch Mr. John.

Gan Rachael a Medi

Gweithdy Dewi Pws

Yn ystod y mis aeth bechgyn bl.5 i weithdy barddoniaeth yn Llyfrgell y Dref gyda Dewi Pws. Chwaraeom ni lawer o gemau fel anagrams pêl-droed a cwisiau pa dîm. Roeddem yn ceisio chwilio am dri llyfr gan T. Llew Jones a thri llyfr gan Roald Dahl. Roedd Alex a Callum yn fy ngrāp i, ac roeddem ni bron â gorffen y dasg, un cwestiwn ar ôl gyda ni. Mwyheais yn fawr iawn ac rwy'n meddwl bod pawb arall o'r bechgyn wedi mwynhau hefyd.

Gan Ben

Eisteddfod yr Urdd



Llongyfarchiadau mawr i bawb sydd wedi ennill clod yn Eisteddfod yr Urdd dros y mis diwethaf. Da iawn ti Niamh am ddod yn ail yn y gystadleuaeth dawnsio disgo ac mae'n hyfryd dweud y bydd Medi, Esther, Zoë, Bethan a Catrin (aelodau'r ensemble telyn), Seren (unawd chwythbrennau) a Medi (dawnsio gwerin i ferched) yn cystadlu yn



Eisteddfod Caerdydd ar ddiwedd mis Mai. Diolch i bawb sydd wedi ein cynorthwyo i hyfforddi'r plant.

Dysgu am ein hamgylchedd



Cafodd Blwyddyn 5 a 6 brynhawn arbennig yng nghwmni Hywel Griffiths o Adran Ddaeryddiaeth Prifysgol Aberystwyth yn ddiweddar. Fe fuodd e'n dysgu ni am ddaeryddiaeth yr ardal o gwmpas Cwm Leri. Roedd e'n hwyl enfawr i fesur cyflymder yr afon a mesur dyfnder y dâr.

Gan Esther

Cefyn Burgess

Bu'r ysgol yn hynod o ffodus i dderbyn nawdd hael gan Gronfa Eleri a Chwmni Amgen i'n galluogi i wahodd

yr artist Cefyn Burgess i weithio gyda phob dosbarth. Tecstilau yw maes Cefyn ac mae'r disgyblion wedi bod yn brysur yn lluniadu, torri a phwytho adeiladau'r pentref ar gyfer creu murlun ar y thema 'Ein Pentref'.


Pêl-rwyd

Diolch o galon i Rhiannon a Hannah o'r Brifysgol am ddod i'r ysgol i roi hyfforddiant pêl-rwyd i ni a merched Ysgol Llangynfelyn. Fe wnaethom ddysgu llawer o dactegau newydd!

Gan Ffion



Llongyfarchiadau mawr i Rachael, Tara, Ffion a James am gyrraedd yr ail rownd o Gwis Llyfrau Llyfrgell Aberystwyth. Maent wedi mwynhau'r her o ddarlenn ac ateb cwestiynau am y ddau lyfr dan sylw yn fawr iawn.



CYMDEITHAS RHINIEN AC ATHRAWON YSGOL TAL-Y-BONT

Cynhaliwyd Disgo Pasg ar y 3ydd o Ebrill yn Neuadd Goffa Tal-y-bont gyda Dj Dai, a chynhaliwyd y cystadlaethau canlynol:
Addurno wy



1af Ffion Nelmes
2ail Glain Llwyd Davies
3ydd Miriam Llwyd Davies

Cystadleuaeth parêd het wy



1af Billy Swanson
2ail Sion Nelmes
3ydd Louisa Williams


Cafwyd noson dda iawn a llwyddwyd i gasglu £300 tuag at yr ysgol.

Holi awdur

Ac yntau newydd gyhoeddi ei nofel gyntaf, *Y Llwybr*, sy'n nofel dditectif, aeth golygydd y mis draw i Garnwen i holi'r awdur, Geraint Evans:

Gol: *Beth a'ch ysgogodd i fynd ati i sgrifennu nofel?*

GE: Ar ôl imi ymdeol roeddwn yn benderfynol o wneud rhywbeth gwahanol. Does gen i ddim llawer o hobiau, ond mi rydw i wedi darllen nofelau ditectif rif y gwllith. Gweld yr oeddwn i nad oes cymaint o nofelau felly yn cael eu cyhoeddi'n Gymraeg. Yr oedd gen i fras syniad am stori yn fy mhen ac fe drafodes i hynny gyda Lefi Gruffudd yn y Lolfa, a dechrau sgrifennu 5-6 phennod i ddechrau. Ar ôl cael ymateb ffafriol gan Lefi, dyma gychwyn ar y gwaith yn ddisgybledig a gweithio wrth y cyfrifiadur gan osod targed i mi fy hun o hyn-a-hyn o eiriau y mis. Y nod



oedd sgrifennu 70,000 o eiriau i gyd. Yn y diwedd rown i'n teimlo braidd yn euog os na fyddwn yn sgrifennu.

Gol: *Pwy yw eich hoff awdur ditectif?*

GE: Rwy'n hoff o waith Ian Rankin, P. D. James a Colin Dexter. Mae'r rhain yn sgrifennu'n dda. Mae'n rhaid

i nofel gael elfennau fel stori sy'n datblygu'n weddol gyflym, a chymeriadau credadwy wrth gwrs, ond mae'n rhaid i'r sgrifennu fod yn dda hefyd. Rwy'n edmygu cymeriad y plismon sy'n ganolog i'r stori, fel Inspector Morse a Rebus. Yr hyn sy'n apelio ataf i yng nghymeriad Morse yw'r plismon diwylliedig a llengar.

Gol: *Pa waith ymchwil a wnaethoch cyn sgrifennu'r nofel?*

GE: Siaradais gyda phlismyn ac mae gen i gopi o'r *Police and Criminal Evidence Act* wrth y cyfrifiadur nawr! Rhaid gwneud ymchwil, achos bod y darllenydd yn disgwyl i nofel fod yn gredadwy. Nid math o werslyfr ar waith ymchwil yr heddlu yw nofel dditectif, ond mae'n rhaid wrth yr ymchwil os ych chi am gyflwyno'r cyfan yn gredadwy.

Gol: *A oes gennyh ddilyniant i'r nofel hon ar y gweill?*

GE: Oes, rwy'n bwriadu sgrifennu nofel arall gyda'r un plismyn ynnddi wedi ei lleoli yng Ngheredigion. Ar ôl sefydlu'r prif gymeriadau gellwch wedyn ddod â nhw i'r darllenydd am yr eildro a'u llenwi nhw mas fel petai. Bydd y cefndir yn y nesaf yn hollol wahanol, er ei bod wedi ei lleoli yng Ngheredigion. Ffermydd gwynt fydd y cefndir, gan fod pobl yng ngyddfau'i gilydd pan fyddan nhw'n trafod sefydlu ffermydd gwynt, mae llawer o wrthdaro a

thensiwn. Er nad oes gen i ddim dyddiad cyhoeddi eto, mae angen gwneud llawer mwy o waith ymchwil i'r cefndir.

Gol: *Sut brofiad oedd gollwng y gwaith o'ch gafaél a'i gyflwyno i'r golygydd ac yna i'r darllenydd maes o law?*

GE: Wedi byw gyda'r baban a'i fagu a'i nyrso am fisoedd, roedd yn brofiad mawr ei roi i rywun arall, ei roi i'r byd fel petai. Rhaid magu croen, ond rown i damed bach yn boenus.

Gol: *Ond mae'r ymateb i'r nofel wedi bod yn galonogol iawn.*

GE: O, ydy. Rwy wedi cael gwahoddiad i fynd i siarad ag aelodau clwb llyfrau, a chi'n gorffod bod yn ddigon aeddfed i dderbyn beirniadaeth, ac mae cael y cyfle i drafod y gwaith yn help. Mae pobl wedi bod yn garedig. Rwy wedi cael pobl yn croesi'r stryd yn dweud eu bod wedi mwynhau darllen y nofel, ac mae'n neis bod pobl yn ymateb felly. Y mae un dyn o Dde Affrica sy'n dysgu Cymraeg wedi darllen y llyfr ac wedi ymateb yn gadarnhaol ar wefan gwales.com, ar ôl lawrlwytho'r llyfr dros y we.

Gol: *A yw cyhoeddi e-lyfrau yn eich barn chi yn fygythiad i ddyfodol y llyfr print?*

GE: Nagyw, yw'r ateb. Mae'n ymestyn cyfleoedd arbennig i iaith a diwylliant lleiafrifol fel y Gymraeg. Ni fydd yr e-lyfr yn disodli'r llyfr print, ond bydd yn creu cyfleoedd newydd.

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini
i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk

Ffôn: 01970 832278

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

**CODI Tŷ NEU
ESTYNIAD?**



Iwan Jones, Technegydd Pensoerniol
Gellimanaydd, Talyhoir, Ceredigion SY24 5HU
01970 832760

Helen Mair Jenkins 1965-2009



(Y llun trwy garedigrwydd Janet Evans, Cefngweiriog.)

Gyda braw a thristwch y clywyd am farwolaeth Helen Jenkins o Fferm y Moc, Ffostrasol, gynt o Bengelli, Taliesin, trwy ddamwain drasig ar 21ain o Fawrth. Bydd pawb a oedd yn ei hadnabod yn cofio ei phersonoliaeth gyfeillgar a siriol, ac yn cofio amdani fel mam a oedd yn fawr ei gofal am ei phlant. Yr ydym yn cydymdeimlo'n ddwys â'i gâr, Aled, a'r plant, Dylan, Reian a Megan, a hefyd â'r teulu agos i gyd sydd yn yr ardal.

Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol cyhoeddus yng Nghapel Penllwyn, Capel Bangor, a thraddodwyd teyrnged iddi gan Beti Griffiths, Llanilar. Yr ydym yn ddiolchgar i Miss Griffiths am gael dyfynnu o'r deyrnged:

'Cafodd Helen ei dwyn i fyny yn nyffryn hardd Cwm Rheidol ar fferm Aberffwd. Hi oedd merch ieuengaf Emrys a Jean Davies a bu farw ei thad yn ddifrifol o sydyn rhyw 10 mlynedd yn ôl. Mynychodd Ysgol Gynradd Penllwyn ac Ysgol Gyfun Penweddig. Roedd Helen bob amser yn mwynhau bywyd i'r eithaf, bywyd llawn. *'Life is for living'*, dyna ei harwyddair mewn bywyd. Ymhen amser dyma briodi Aled a setlo i lawr. Yna ganwyd eu tri phlentyn, Dylan, Megan a Reian. Roedd wrth ei bodd yn chwarae'r rôl o fod y fam. Er bod eu cyntafanedig yn dioddef o anabledd, ni chwynodd erioed ond teimlai hi'n fraint cael edrych ar ei ôl. Na nid yw bywyd ddim yn deg. Rwy'n digwydd credu ein bod ni wedi cael ein gosod ar y ddaear i gynnal ein gilydd ac mae achlysur fel hwn yn gwneud inni sylweddoli beth yw ein blaenoriaethau a'n cyfrifoldebau mewn bywyd. Ond mae un peth na all neb ei ddwyn oddi arnom a hwnnw yw atgofion. Atgofion am briod arbennig a gweithgar, atgofion am fam ofalus am ferch ac am chwaer annwyl.'

Dyma deyrnged bersonol i Helen gan un o'i ffrindiau yn yr ardal hon, sef Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach:

'Blonde bombshell' o ddynes, wastad yn barod i chwerthin a chael hwyl oedd Helen ac roeddwn wrth fy modd yn ei chwmni. Hoffai dynnu ar fy nhafodiaith ogleddol a *'Lisa-paid-â-mwydro'* fyddai hi a Megan yn fy ngalw'n aml.

Mae Megan a Reian yr un oed â mhlant i ac felly roedd Helen yn gwybod popeth a oedd angen arnynt ar gyfer y lluo o weithgareddau'n yr ysgol. A minnau a Morgan yn gweithio, roedd Helen yn aml yn fy ffonio i fy atgoffa

bod nofio, chwaraeon neu ymweliad ymlaen gan y plant a bod angen rhywbeth arbennig arnynt. Yn aml buaswn i wedi anghofio hebddi, dwi'n siâr.

Roedd Helen bob amser yn barod iawn ei chymwynas a phan gefais ddamwain car a thorri pont fy ysgwydd, Helen a ffoniais i ofalu am Robin a Carwyn a hwytha wrth eu bodd efo hi. Un wych yn y gegin oedd hi hefyd â bara brith neu gacs bach yn barod bob amser. Byddai Helen bob tro yn mynnu ein bod yn aros am swper, a rhywsut roedd digonedd o fwyd ar gael. Ei *'chicken dinner'* sydd yn aros yn fy nghof i fwyaf.

Gofalu am ei phlant ac Aled oedd canolbwynt ei bywyd. Un ffordd fach roedd Morgan a minnau'n medru ei helpu oedd wrth fynd i nofio. Byddai Megan a Reian, Robin a Carwyn efo ni tra oedd Helen yn canolbwyntio ar Dylan ac am hyn roedd hi'n ddiolchgar dros ben. Rydwi'n gwisgo'r freichled brynodd hi fel diolch i mi hyd heddiw.

Rydym yn gweld Pengelli yn glir o'n tŷ, a phan brynodd Helen deledu newydd anferth y jôc oedd ein bod ni'n gallu ei wyllo o fan hyn. "Ffonia fi pan wyt ti moyn newid y sianel!" fyddai'n dweud. Wrth gwrs, fel Cardi go-iawn roedd hi hefyd yn tynnu arna i am gyfraniad at gost y drwydded!

Golygfa gyfarwydd i bobl y cylch oedd gweld Helen yn ei *Galaxy* glas ar hyd y ffordd. Byddai'r plant yn gweiddi wrth weld 'HMJ' yn dod. Mae'n ergyd fawr ei cholli. Mae'n gadael bwlch anferth ar ei hól: un seren ddisglair yn llai yn y *Galaxy*; Helen, fy ffrind annwyl.'

STORFA CANOLBARTH CYMRU

Mid Wales Self Storage Centre

- STORIWCH E' • RHOWCH DAN GLO •
- CADWCH Y GORIAD •



STORFA
GARTREF

- DIOGELWCH
BT REDCARE
24 AWR



STORFA FUSNES

- CCTV



STORFA I
FYFYRWYR

- WEDI'I GYNHESU
- CIWBICLAU £10 yr
wythnos (250
ciwb)



PACEDU

- ARCHIFAU

01654 703592

Heol y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
www.midwalesstorage.co.uk

Chwaraeon

Fel yr adroddwyd yn Papur Pawb mis Mawrth, cafodd aelodau Clwb Pêl-droed Ieuencid Tal-y-bont y ffrainc o fod yn 'ball boys' yn ystod y gêm ryngwladol rhwng Cymru a'r Ffindir yn Stadiwm y Mileniwm ar ddydd Sadwrn olaf Mawrth. Cawsont fwy o hwyl arni na'r tîm cenedlaethol a dyma adroddiad gan un a fu ymhlith y rhai breintiedig hynny a gafodd ddiwrnod i'r brenin:



Deffrais yn gynnar yn llawn cyffro. Roeddwn yn gobeithio bod Cymru yn mynd i guro y Ffindir ac y byddai'n gêm ardechog!

Roedd Hefin Hopkins wedi dod draw am 'sleep over'. Paratoais i fynd. Roedd rhaid i ni wisgo dillad ymarfer Tal-y-bont, sef siacedi du a logo Tal-y-bont. Roedd y clwb wedi rhoi benthyg trowsus i ni gyda logo Tal-y-bont arnynt hefyd. Erbyn hyn roeddwn i yn barod i fynd ac yn edrych ymlaen i gwrdd a thîm Cymru, ond roedd siwrnai hir ar y bws o'n blaenau.

Doedd hi ddim yn ddechrau da i'r diwrnod pan ddechreuodd hi fwrw! Felly bu raid i ni redeg i ddal y bws.

Roedd y rhan fwyaf o'r bobl ar y bws yn barod. Eisteddais i a Hef ar bwys Gruffydd Jones ac ymunodd Dafydd Southgate â ni yn Bow Street. Roedd pawb yn mwynhau ar y bws, yn edrych ymlaen at y diwrnod mawr. Roedd llawer o chwarae ar ein ffonau symudol a llawer o chwerthin ar y siwrne.

Aeth y siwrne yn gyflym iawn gyda Dylan Wyn yn ein diddanu a hoe fach i fynd i'r tŷ bach. Roedd tua hanner awr o'r siwrne ar ôl. Rhoddodd gyrrwr y bws CD Queen arno.

O'r diwedd cyrhaeddodd Gaerdydd. Ar ôl bod tua thair awr ar y bws, roeddwn i yn falch o gyrraedd. Cerddom i Stadiwm y Mileniwm, i ymarfer bod yn 'ball boys', i sefyll yn y

llefydd cywir i gario'r baneri ar y cae a.y.y.b.

Ar ôl gwneud hyn aethom at ein stafelloedd newid, lle cawsom becyn bwyd gan staff y Stadiwm. Erbyn hyn doedd dim ond tua hanner awr tan y gêm. Roedd rhaid i ni ymddwyn yn dda iawn achos roedd y dyfarnwyr yn y stafell nesaf.

Daeth yr amser mawr. Roeddwn i yn mynd i gario baner Cymru i'r cae yn fyw ar y teledu, gyda tua 20,000 o bobl yn y stadiwm a llawer yn gwyllo adref. Cefais i'r ciw i fynd arno. Felly dyna ni yn cerdded lawr y twnel a chwaraewyr Cymru yn ein dilyn. Roeddwn yn teimlo'n bwysig iawn. Roedd fy nghalon yn curo ac roeddwn yn nerfus hefyd. Roedd hwn yn fwy nerfus na bod ar lwyfan Canolfan y Celfyddydau. Roeddwn yn gweld golau dydd y stadiwm yn dod yn agosach, ac yn agosach gyda phob cam.

"Wwwww hwwwwww" pawb yn bloeddio. Sŷn anferthol. Roedd pawb yn y stadiwm yn dechrau curo'u dwylo a gwaeddi wrth i ni ddod allan o'r twnel. Roedd hyn yn deimlad ardderchog. Roedd pawb yn ein gwyllo ni yn cario'r faner ar y cae. Y peth ddaliodd fy sylw oedd y dyn sain yn paratoi y meic. Sylweddolais bod Cerys Matthews yn canu'r anthem genedlaethol reit wrth fy ochr. Roedd e'n wych clywed pawb yn canu'r anthem, ac roedd hi'n dda gallu clywed anthem tîm y Ffindir. Sylweddolais fod Sami



Hyypiä a Mikael Forssell yn chwarae i'r Ffindir. Doeddwn erioed wedi meddwl y byddwn yn sefyll tua deg metr i ffwrdd o'r ddau yma. Roedd hyn yn ddechrau da.

Ar ôl canu'r ddwy anthem rhedais oddi ar y cae i baratoi i fod yn 'ball boy'. Roeddwn i yn sefyll wrth ymyl cefnogwyr y Ffindir. Aeth chwiban y dyfarnwr, ac roeddwn yn barod i fynd ac yn edrych ymlaen. Roedd Cymru'n chwarae'n ardderchog, tan sgoriodd y Ffindir. Dydw i ddim yn siwr pwy oedd y person yma ond roedd e'n gwisgo rhif 16 ar ei grys. Suddodd fy nghalon pan ddechreuodd cefnogwyr y Ffindir ddathlu wrth waeddi, dawnsio a chanu.

Aeth chwiban hanner amser, ac roedd Cymru yn colli 1-0! Aethom yn ôl i'r stafell newid a chael diod ac ymlacio, tra bod Toshack yn gwaeddi ar dîm Cymru.

Wrth i ni adael ein stafell newid i fynd i'r cae, daeth y dyfarnwr draw ata i a dweud, "So, you come from Tal-I-Bont?" Roedd en dod o Sbaen. "yes I do." Atebais. "Are you having good time?" "Yes thank you." "Your uniform looks good!" "Gracias" dywedais, a rhedais yn ôl i fy lle, ac at gefnogwyr y Ffindir a oedd yn swnllyd iawn erbyn hyn.

Aeth y chwiban unwaith eto, ac roeddwn i yn barod i weld Cymru yn ennill y gêm. Ond mae'n amlwg nad oedd tactegau John Toshack ddim digon da hanner amser, achos roedd Cymru'n chwarae yn wael iawn.

O'r diwedd gwnaeth John Toshack y dewis cywir wrth ddod ag Aaron Ramsey i'r cae. Mae e'n chwaraewr ardderchog, ac mae ganddo fôr o dalentau.

Roedd Cymru yn chwarae yn well ond yn anffodus dal ddim digon da. Newidiodd Toshack y tîm eto ond wnaeth hyn ddim gwahaniaeth, felly roedd rhaid iddo defnyddio'i newid olaf. Daeth Earnshaw arno. Roedd hi dal yn 1-0 i'r Ffindir. Daeth y Ffindir yn agos at sgorio sawl gwaith gydag ergyd Forssell yn cael ei harbed gan gôl-geidwad Cymru, Wayne Hennessey; ac yn syth ar ôl hynny Joe Ledley yn penio'r bêl i ffwrdd o'r llinell gôl. Ond roedd y Ffindir yn haeddu sgorio gôl arall, a dyma a ddigwyddodd yn yr amser ychwanegol. Rhif 18 sgoriodd ac roedd y gêm drosodd. Aeth chwiban y dyfarnwr: Cymru 0 Y Ffindir 2.

Es i i gwrdd â'r timau wrth y twnel, ac ysgwyd llaw gyda nhw. Aeth Bellamy heibio, Joe Ledley, Aaron Ramsey. Ysgwydais i law â nhw. Ond y peth gorau am y diwrnod oedd fy mod i wedi ysgwyd llaw gyda dau chwaraewr anhygoel y Ffindir sef Sami Hyypiä, sydd wedi ennill llawer o fedalau i Liverpool a Mikael Forssell a oedd yn arfer chwarae i Birmingham yn y Premiership. Roedd Hef yn lwcus iawn, achos cafodd ef gerdyn melyn y dyfarnwr.

Cawsom hwyl. Aethom adref, a phawb wedi blino'n lân ar ôl y diwrnod bythgofiadwy.

Sam Ebenezer

Mae Papur Pawb yn awyddus i gynnwys newyddion am hynt a helynt unigolion neu dimau o'r ardal sy'n cystadlu yn y byd chwaraeon. Anfonwch yr hanesion at Gwyn Jenkins drwy e-bost (maesgwyn@fsmail.net) neu ffoniwch ef ar 832560.